



**Goruchwyliwr Cymorth Busnes
Adran Cymorth Corfforaethol**

Cyf: NU290

37 Awr yr wythnos

Gradd 11

CYFLOG: £34,723 - £35,411 y flwyddyn

Mae cyfle wedi codi o fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar gyfer Goruchwyliwr Cymorth Busnes **parhaol** a leolir ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Llantrisant.

Ein cenhadaeth yw gwneud De Cymru yn ddiogelach drwy leihau risg. Fel y Goruchwyliwr Cymorth Busnes byddwch chi'n goruchwyllo Swyddogaethau Cymorth Busnes ac Ysgrifenyddiaeth y Gwasanaeth.

- Gwasanaethau Ysgrifenyddiaeth
- Gwasanaethau Aelodau
- Gwasanaethau Derbynfa
- Gwasanaethau Cymorth Busnes

Darparu gwasanaethau effeithiol, effeithlon a dibynadwy sy'n bodloni anghenion y sefydliad. Sicrhau bod safonau a gweithdrefnau cytunedig yn cael eu gweithredu, eu hufuddhau a'u hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad profedig o sicrhau darpariaeth effeithiol o wasanaeth gweinyddol ac ysgrifenyddol cyffredinol ar gyfer sefydliad. Byddai gwybodaeth a phrofiad o wneud trefniadau ar gyfer cyflwyniadau gwobrau, seremonïau a digwyddiadau yn fanteisiol, yn ogystal â phrofiad o ddarparu cymorth effeithiol i aelodau pwyllgorau a grwpiau er mwyn galluogi trefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer sefydliad.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Mae hon yn swydd llawn amser gydag oriau hyblyg yn unol â chynllun oriau hyblyg y Gwasanaeth.

Gall y rôl hon gynnwys teithio achlysurol rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol a bydd gofyn am wiriad trwydded gyrru.

Gellir lawrlwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o'n gwefan: www.decymru-tan.gov.uk



Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Sylwch nad yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer swyddi gwag RDS

Derbynnir CV fel rhan o'r cais, fodd bynnag mae angen mynd i'r afael hefyd â'r meini prawf ar y fanyleb person fel rhan o'r CV neu ddogfen ar wahân.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: 12:00 ganol dydd, 3^{ydd} Ebrill 2023.

I gael gwybodaeth bellach am y swydd, mae croeso i chi gysylltu â Sarah Watkins drwy law e-bost. s-watkins@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch **01443 232011**.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus ar y cam Llundain'r Rhestr Fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad).

Bydd trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gallant gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'r gymdeithas i ymgeisio.

